


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

# Adroddiad Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad

Mawrth 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddPPIA@Cynulliad.Cymru
Twitter: @SeneddPPIA

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

# Adroddiad Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad

Mawrth 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
**Cymru**

National
Assembly for
**Wales**

# Cylch gwaith y Pwyllgor:

Sefydlwyd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc (y Pwyllgor) ar 22 Mehefin 2011 gyda chylch gwaith i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar wariant, gweinyddiaeth a materion polisi sy'n cwmpasu: addysg, iechyd a llesiant plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

Ar 22 Ionawr 2014, cytunodd y Cynulliad i newid cylch gwaith y Pwyllgor i gynnwys Addysg Uwch. Roedd y pwnc wedi'i gynnwys yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes o hyd, gyda'r ddau bwyllgor yn ystyried Addysg Uwch o'u safbwyntiau penodol. Ar yr un pryd, cymerwyd y cyfle i ychwanegu'n ffurfiol y gair 'addysg' i deitl y Pwyllgor i adlewyrchu natur ei waith yn well.

# Aelodau'r Pwyllgor:

| Aelod Pwyllgor | Plaid | Etholaeth neu Ranbarth |
|---|---|---|
| Ann Jones (Cadeirydd) | Llafur Cymru | Dyffryn Clwyd |
| Angela Burns | Y Ceidwadwyr Cymreig | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Keith Davies | Llafur Cymru | Llanelli |
| Suzy Davies | Y Ceidwadwyr Cymreig | Gorllewin De Cymru |
| John Griffiths | Llafur Cymru | Dwyrain Casnewydd |
| Lynne Neagle | Llafur Cymru | Torfaen |
| David Rees | Llafur Cymru | Aberafan |
| Aled Roberts | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Gogledd Cymru |
| Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Simon Thomas | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |

# Aelodau blaenorol y Pwyllgor:

| Aelod Pwyllgor | Plaid | Etholaeth neu Ranbarth |
|---|---|---|
| Christine Chapman AC (cyn Gadeirydd) | Llafur Cymru | Cwm Cynon |
| Jocelyn Davies | Plaid Cymru | Dwyrain De Cymru |
| Rebecca Evans | Llafur Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Bethan Jenkins | Plaid Cymru | Gorllewin De Cymru |
| Julie Morgan | Llafur Cymru | Gogledd Caerdydd |
| Jenny Rathbone | Llafur Cymru | Caerdydd Canolog |

# Cynnwys

**Cyflwyniad** 1
**Prif ddigwyddiadau - llinell amser** 2
**Ymchwiliadau Polisi** 5
Iechyd a gofal cymdeithasol plant 5
Addysg 11
Hawliau plant 16
**Deddfwriaeth a gyfeiriwyd i'r Pwyllgor** 19
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 19
Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 20
Deddf Addysg (Cymru) 2014 22
Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 23
Bil Cymwysterau Cymru 2015 25
Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) 25
**Craffu ar ôl y broses ddeddfu** 27
Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 27
**Craffu cyn y broses ddeddfu** 28
Bil Cymwysterau Cymru 28
Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 28
**Gwersi a ddysgwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad** 31
Ymgysylltu uniongyrchol 32
Craffu cyn y broses ddeddfu 33
Ymchwiliadau fesul cam 33
Ymchwiliadau ciplun 34
Defnyddio cynghorydd annibynnol 34
Prif-ffrydio agenda'r Undeb Ewropeaidd 34
Craffu ariannol cyffredinol gan y Pwyllgor 34
**Edrych tuag at y Pumed Cynulliad** 36
Barn plant a phobl ifanc 36
Argymhellion o waith y Pedwerydd Cynulliad 38
Meysydd o bwysigrwydd yn y dyfodol 41

## CYFLAWNIADAU'R PWYLLGOR YN YSTOD Y PEDWERYDD CYNULLIAD

**11** YMCHWILIAD POLISI

**6** BIL WEDI'I DRAFOD GAN Y PWYLLGOR

**2** CRAFFU CYN DEDDFU AR FILIAU DRAFFT

**134** O GYFARFODYDD

**320** O DYSTION

**855** YMATEB YSGRIFENEDIG I YMGYNGORIADAU

## ARGYMHELLION Y PWYLLGOR



**125** WEDI DOD I LAW

- WEDI'U DERBYN **55%**
- MEWN EGWYDDOR **36%**
- WEDI'U GWRTHOD **9%**

## YMGYSYLLTU

GRWPIAU FFOCWS

DIGWYDDIADAU RHANDDEILIAID

AROLYGON

SGYRSIAU GYDA PHOBL IFANC

YMWELIADAU

# Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi man cychwyn defnyddiol i bwyllgor olynol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - i ddangos yr hyn yr ydym wedi ei wneud yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, sut yr ydym wedi ei wneud a'r gwersi yr ydym wedi'u dysgu.

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yw un o un ar ddeg o bwyllgorau a sefydlwyd gan y Cynulliad o dan Reolau Sefydlog. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys meysydd addysg, iechyd a llesiant plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

Prif nod y Pwyllgor dros bum mlynedd y Pedwerydd Cynulliad fu craffu ar bolisïau a deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru, ac i fonitro eu gweithrediad, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc Cymru yn cael cynnig mynediad o ansawdd uchel i addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad cynhaliodd y Pwyllgor 11 o ymchwiliadau polisi, a chynhaliwyd nifer o sesiynau craffu cyffredinol unigol gyda Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion yr oedd eu cyfrifoldebau yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau craffu blynyddol gydag Estyn a Chomisiynydd Plant Cymru.

Craffodd y Pwyllgor ar 6 o filiau a gyfeiriwyd ato gan y Pwyllgor Busnes. Roedd hyn yn cynnwys 5 o Filiau Llywodraeth Cymru a aeth drwy'r broses ddeddfwriaethol lawn i ddod yn Ddeddfau'r Cynulliad. Cafodd un Bil a gynigiwyd gan Aelod o'r Cynulliad hefyd ei ystyried gan y Pwyllgor yng nghyfnod 1 (ystyried egwyddorion cyffredinol), ond ni wnaeth symud ymlaen ymhellach drwy'r broses ddeddfwriaethol.

Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor ddau ymarfer craffu cyn y broses ddeddfu ar gynigion Llywodraeth Cymru. Roedd un o'r rhain yn ymwneud â chynigion ar gyfer Bil Cymwysterau Cymru, a gafodd eu nodi mewn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn dilyn yr adolygiad o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed. Y llall oedd craffu ar y cynigion ar gyfer diwygio'r system ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), a gyhoeddwyd yn y Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

Er mwyn llywio’r adroddiad etifeddiaeth hwn, gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidogion perthnasol ar gynnydd o ran cwrdd ag argymhellion a wnaed mewn perthynas â phob agwedd ar waith y Pwyllgor.

## Gwersi a ddysgwyd

Wrth gyflwyno'r adroddiad hwn, roedd y Pwyllgor yn awyddus nid yn unig i gyflwyno darlun o'r gwaith yr oedd wedi ei wneud yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, ond hefyd i edrych ar sut gafodd y gwaith ei wneud, yr hyn a oedd wedi gweithio'n dda a’r hyn y gellid fod wedi'i wneud yn wahanol neu'n well.

Mae'n hanfodol gallu rhannu arfer da rhwng pwyllgorau, ond mae hefyd yn bwysig nad yw unrhyw arfer da yn cael ei golli yn y cyfnod pontio rhwng Cynulliadau. Mae manylion am y gwersi y mae'r Pwyllgor wedi'u dysgu wedi'u cynnwys yn hwyrach yn yr adroddiad hwn.

# Prif ddigwyddiadau

Mae detholiad o ddigwyddiadau allweddol y Pwyllgor wedi'u hamlygu isod. Mae rhestr lawn o weithgareddau'r Pwyllgor ar gael ar wefan y Pwyllgor.

## 2011

**22 Mehefin**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn cael ei sefydlu

## 2012

**8 Mai**
Y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad ar graffu ar ôl y broses ddeddfu ar Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

**8 Tachwedd**
Y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad ar Wasanaethau Mabwysiadu yng Nghymru

## 2013

**4 Mawrth**
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) yw Deddf 'addysg' gyntaf Cymru i gael Cydsyniad Brenhinol

**8 Mai**
Y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru i lywio gwaith craffu gan y Pwyllgor Iechyd a gofal Cymdeithasol

## 2014

**22 Ionawr**
Ymestynnwyd cylch gwaith y Pwyllgor i gynnwys Addysg Uwch. Newidiwyd enw'r Pwyllgor i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**23 Ionawr**
Yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor i gynnwys diwygiadau i SEN mewn un bil, mae darpariaethau AAA penodol yn cael eu tynnu yng Nghyfnod 2 o'r Bil Addysg (Cymru)

**27 Ionawr**
Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) yn cael Cydsyniad Brenhinol

**7 Gorffennaf**
Adroddiad ar y gwaith craffu cyn y broses ddeddfu ar Fil Cymwysterau Cymru yn cael ei gyhoeddi. Y Gweinidog yn derbyn argymhelliad allweddol.

**10-11 Medi**
Y Pwyllgor yn mynd ar ymweliad i OECD i drafod PISA ac adolygiad Cymru

**25 Tachwedd**
Y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

## 2015

**10 Ebrill**
Y Gweinidog yn derbyn argymhelliad y Pwyllgor i roi targed mwy heriol yn ei le ar gyfer lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant 7 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cymheiriaid

**12 Mai**
Deddf Addysg Uwch (Cymru) yn cael Cydsyniad Brenhinol

**5 Awst**
Deddf Cymwysterau Cymru yn cael Cydsyniad Brenhinol

**8 Hydref**
Y Pwyllgor yn bresennol yn lansiad swyddogol Cymwysterau Cymru

**12 Tachwedd**
Cynhaliwyd trafodaethau bwrdd crwn gyda rhanddeiliaid i lywio'r gwaith craffu cyn y broses ddeddfu ar y Bil ADY

## 2016

**22 Mawrth**
Y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad terfynol ar y Pedwerydd Cynulliad, ar yr ymchwiliad dilynol ar Wasanaethau Mabwysiadu



**Ymweliad y Pwyllgor â’r Sefydliad ar gyfer Cydweithredu Economaidd a Datblygu (OECD),**
Paris, Medi 2014

# Ymchwiliadau Polisi

Roedd newidiadau i weithdrefnau deddfwriaethol ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad yn golygu bod pwyllgorau polisi am y tro cyntaf yn gyfrifol am drafod deddfwriaeth sylfaenol yn ffurfiol. Oherwydd nifer y Biliau a gyfeiriwyd i'r Pwyllgor, roedd nifer yr ymchwiliadau polisi yr oedd y Pwyllgor yn gallu ymgymryd â nhw yn is na Chynulliadau blaenorol. Fe wnaeth y Pwyllgor, fodd bynnag, ystyried ystod eang o faterion polisi, oedd yn dod o dan y 3 chategori bras canlynol:

**01.** Iechyd a gofal cymdeithasol plant

**02.** Addysg

**03.** Hawliau plant

Ceir trosolwg byr o bob ymchwiliad isod, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau yn dilyn cwblhau gwaith y Pwyllgor. Lle mae camau pellach ar ymchwiliad penodol wedi'u nodi, mae argymhellion ar gyfer ein pwyllgor olynol wedi cael eu cynnwys.

## Iechyd a gofal cymdeithasol plant

Drwy gydol y Pedwerydd Cynulliad, mae'r Pwyllgor wedi cynnal ffocws ar iechyd a gofal cymdeithasol plant. Roedd cyfnod cynnar y Pwyllgor yn canolbwyntio ar effaith bosibl Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar blant a phobl ifanc, ac **adroddiad** dilynol a gyhoeddwyd yn 2013, a gynhyrchwyd i lywio'r gwaith craffu ar y Bil gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Roedd gwaith cynnar hefyd yn cynnwys ymchwilio i effeithiolrwydd Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru (CAFCASS).

Mae'r ymchwiliadau polisi allweddol a wnaed gan y Pwyllgor wedi'u nodi isod.

### Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

Dechreuodd ymchwiliad y Pwyllgor i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) ym mis Ionawr 2014, a derbyniwyd **64 o ymatebion i'r ymgynghoriad** i'w alwad am dystiolaeth, y nifer fwyaf o ymatebion i unrhyw ymchwiliad polisi a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Cyfarfu Aelodau'r Pwyllgor hefyd gyda phlant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr ar draws Cymru a daeth **adroddiad y Pwyllgor** i'r casgliadau canlynol:

- nid oedd lefel ddigonol o wasanaethau CAMHS yn cael ei darparu i ddiwallu anghenion y bobl ifanc yng Nghymru yr oedd angen gwasanaeth meddygol arbenigol arnynt;
- mae'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau CAMHS yn wynebu trafferthion, gan gynnwys amseroedd aros, gwasanaethau a ddarperir mewn clinigau a'r defnydd o feddyginiaeth ar bresgripsiwn;
- mae'r diffyg gwasanaethau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny nad ydynt yn bodloni meini prawf y 'model meddygol' ar gyfer gwasanaethau CAMHS yn golygu bod lefel sylweddol o angen nad yw'n cael ei ddiwallu.

Yn fuan cyn ei gyhoeddi, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol "adolygiad cynhwysfawr" o CAMHS gyda'r nod o "foderneiddio ac ailgynllunio'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol".

**Diweddariad ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi**

Mae'r Pwyllgor wedi monitro a dilyn i fyny yn weithredol ar yr adolygiad dilynol o CAMHS, a'r rhaglen tair blynedd o newid a gyhoeddwyd yn ddiweddar, o'r enw **Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc**. Mae wedi derbyn diweddariadau, er enghraifft ar gam un yr adolygiad i ragnodi ar gyfer plant a phobl ifanc a meincnodi CAMHS ar y cam gofal sylfaenol. Yn gynnar yn 2016 derbyniodd y Pwyllgor hefyd **ddiweddariadau llafar ac ysgrifenedig** gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Croesawodd y Pwyllgor gyhoeddiad y Gweinidog ym mis Mehefin 2015 y byddai £7.6m ychwanegol i'w fuddsoddi bob blwyddyn yn CAMHS yng Nghymru, sy'n cynnwys dros £1m ar gyfer gwell mynediad i therapïau seicolegol. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y bydd "dros 130 o swyddi arbenigol newydd cyfwerth ag amser llawn". Roedd y Pwyllgor wedi'u calonogi i glywed bod yr arian ychwanegol yn cynnwys dyraniad o £2 filiwn i ddatblygu model gwasanaeth amgen ar ffurf "gwasanaethau niwroddatblygiadol dynodedig" ar draws Cymru. Bwriad y rhain yw cynyddu'r capasiti i helpu plant a phobl ifanc nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu drwy "fodel meddygol" presennol CAMHS, fel plant yr effeithir arnynt gan anhwylderau ymlyniad, ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD).

O ganlyniad i waith y Pwyllgor, ymrwymodd y Gweinidog i gynnal dadansoddiad pellach o dueddiadau rhagnodi ar gyfer meddyginiaeth gwrth-iselder a gwrth-seicotig i blant a phobl ifanc. Rydym yn croesawu gwaith dilynol Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru.[1] yn atgoffa meddygon teulu, clinigwyr CAMHS a fferyllwyr yr hyn yw gofynion canllawiau NICE a Chyffurlyfr Prydain ar gyfer Plant mewn perthynas â rhagnodi gwrthiselyddion ar gyfer plant a phobl ifanc.

**Argymhelliad 1.** Fel blaenoriaeth ar ddechrau'r pumed Cynulliad, dylai unrhyw bwyllgor olynol sicrhau ei fod yn monitro a yw'r newid sylweddol y mae ei angen yn CAMHS yn cael ei gyflawni. Dylid rhoi sylw arbennig i:

– amseroedd aros;

– a yw'r "gwasanaethau niwroddatblygiadol dynodedig" newydd wedi cael eu datblygu ar draws Cymru;

– a yw plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad at y therapïau seicolegol priodol mewn modd amserol; a

– gallu'r gweithlu a sgiliau ac effeithiolrwydd y swyddi arbenigol newydd.

## Gofal newyddenedigol (2012)

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i adolygu darpariaeth **gofal newyddenedigol** ac, yn arbennig, i ba raddau y gwnaed cynnydd ar weithredu argymhellion a wnaed yn 2010 gan y Pwyllgor Iechyd, Llesiant a Llywodraeth Leol fel yr oedd bryd hynny. Roedd wedi nodi bod cynnydd pellach yn dal i fod yn ofynnol mewn nifer o feysydd allweddol, yn enwedig wrth fynd i'r afael â'r diffyg mewn staff meddygol a nyrsio a dosbarthu crudiau a'u defnyddio'n effeithiol.

[1] Cylchlythyr Iechyd Cymru (2015) 048: Rhagnodi ar gyfer plant a phobl ifanc mewn perthynas â gwrthiselyddion

**Diweddariad ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi**

Cadarnhaodd ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor y bu gwaith parhaus i gysylltu rhwng Byrddau Iechyd Lleol a Deoniaeth Ôl-raddedig Cymru i gynnal gwasanaethau effeithiol a darparu profiad hyfforddi o ansawdd uchel, a bod:

- cynllunio nifer y staff meddygol yn y dyfodol yn cael ei wneud gan arweinwyr ad-drefnu penodol arbenigol a benodwyd gan y Ddeoniaeth;
- angen i anghenion hyfforddi ar gyfer ysbytai yng Nghymru gynnwys amrywiaeth o baediatregwyr a hyfforddwyd gan gynnwys neonatolegwyr arbenigol a hefyd paediatregwyr cyffredinol â'r sgiliau i staffio unedau sydd â lefelau is o achosion difrifol.

Dywedodd y Gweinidog hefyd fod y Rhwydwaith Newyddenedigol wedi cynghori Byrddau Iechyd Lleol ar niferoedd y crudiau a modelau gweithlu fel rhan o ad-drefnu gwasanaethau ar draws pob rhan o Gymru.

Yn ôl y diweddariad a roddodd y Gweinidog i'r Pwyllgor cynhyrchodd y Rhwydwaith ddiweddariad am hyfforddiant ac addysg nyrsys ar draws Cymru ym mis Ebrill 2013 ac y bwriedir cyhoeddi diweddariad pellach.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ymwybodol o waith ehangach, parhaus i fynd i'r afael ag anghenion gweithlu'r GIG yn y dyfodol, gan gynnwys bwrw ymlaen ag argymhellion yr adolygiad Shape of Training o addysg a hyfforddiant meddygol ôl-raddedig ar draws y DU, ac adolygiad o weithlu'r GIG a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru y disgwylir ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2016.

Yn 2015, achoswyd pryder sylweddol o ganlyniad i gynlluniau i atal gwasanaethau mamolaeth dan arweiniad ymgynghorydd yn Ysbyty Glan Clwyd yng Ngogledd Cymru, oherwydd problemau staffio. Cafwyd pryderon ynghylch effaith ad-drefnu gwasanaethau'r GIG ar argaeledd a chynaliadwyedd gwasanaethau arbenigol ar draws Cymru. Canlyniad yr ymgynghoriad ar Raglen De Cymru oedd cytundeb i ganolbwyntio gwasanaethau newyddenedigol ar lai o safleoedd ysbytai ar draws De Cymru er mwyn mynd i'r afael â materion staffio cynaliadwy. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi nodi bod cynnal gofal newyddenedigol diogel a chynaliadwy yn parhau i fod yn her sy'n gyffredin ar draws ardal De Cymru.

> **Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus iawn am y diffyg mewn staffio ac nad yw safonau ar gyfer staff newyddenedigol arbenigol yn cael eu cwrdd. O ystyried y pryderon parhaus ynghylch staffio a chynaliadwyedd gwasanaethau, dylai unrhyw Bwyllgor olynol fonitro cynnydd yn y maes hwn.

## Mabwysiadu (2012)

Cynhaliodd y Pwyllgor **adolygiad manwl** ar gyflwyno'r rhannau o'r gwasanaethau mabwysiadu sydd wedi'u datganoli i Gymru, gyda diddordeb penodol ym mhrofiadau a lleisiau y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y broses fabwysiadu.

Roedd un o'r meysydd mwyaf sylweddol o ran gwaith craffu'r Pwyllgor a'i argymhellion dilynol yn ymwneud â chynnig Llywodraeth Cymru i sefydlu Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai rôl darpariaeth y Gwasanaeth newydd gael ei chryfhau yn sylweddol, gan gynnwys cael tynnu gwasanaethau i ffwrdd o reolaeth awdurdodau lleol.

Derbyniodd y Dirprwy Weinidog ar y pryd (Gwenda Thomas) yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, ond dewisodd Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi'i arwain gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog nad oedd hi wedi diystyru argymhelliad y Pwyllgor ar gyfer gwasanaeth fyddai'n cael ei redeg yn fwy annibynnol yn y dyfodol.

Maes sylweddol arall o ran gwaith craffu'r Pwyllgor oedd y diffyg cymorth yr oedd teuluoedd yn ei dderbyn ar ôl i'r mabwysiadu digwydd.

## Ymchwiliad Mabwysiadu dilynol (2016)

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad dilynol penodol i wasanaethau mabwysiadu yn sgil lansio Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru yn ddiweddar. Gofynnodd y Pwyllgor i randdeiliaid am eu barn ar y cynnydd yn erbyn argymhellion cynharach y Pwyllgor ac aethant unwaith eto i gwrdd yn anffurfiol â rhieni sy'n mabwysiadu a'r rhai sy'n dymuno mabwysiadu.

Amlinellodd ei **adroddiad dilynol** er bod llawer o gynnydd wedi cael ei wneud gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn enwedig o ran cyfnodau cynharach y broses fabwysiadu, roedd llawer o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod teuluoedd yn cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt unwaith y bydd y mabwysiadu wedi digwydd. Oherwydd bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad, nid yw wedi bod yn bosibl i Lywodraeth Cymru ymateb.

> **Argymhelliad 3.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol fonitro bod cynnydd yn cael ei wneud i leihau amrywiadau rhanbarthol o ran darparu gwasanaethau mabwysiadu ac, yn hollbwysig, bod plant a'u teuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt ar ôl mabwysiadu. Mae hefyd yn hanfodol i fonitro a yw pob plentyn a fabwysiadwyd yn cael mynediad i waith stori bywyd o safon.

## Gordewdra ymhlith plant (2014)

Adolygodd yr ymchwiliad i **Ordewdra ymhlith plant** pa mor effeithiol yw rhaglenni a chynlluniau Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o ostwng lefel y gordewdra ymhlith plant yng Nghymru.

Neges allweddol y Pwyllgor oedd bod gordewdra ymhlith plant yn fater cymhleth ac y bydd yr ymateb sy'n ofynnol o reidrwydd yn gymhleth ac amlochrog. Cafodd "mewn egwyddor, y dylai Llwybr Gordewdra Cymru Gyfan, fod yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â'r mater hwn" ac roedd yn cydnabod bod "dulliau ataliol o dan lefelau un a dau yn flaenoriaethau i Lywodraeth Cymru".

Fodd bynnag, roedd gan y Pwyllgor bryderon nad oedd y Llwybr wedi ei weithredu'n llawn, a gwelwyd bod darpariaeth lefel tri yn brin a bod angen cyfeiriad cenedlaethol cliriach.

### Diweddariad ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi

Ym mis Mai 2014, cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymchwiliad i **argaeledd gwasanaethau bariatrig** yng Nghymru. Ffocws yr ymchwiliad hwn, mewn perthynas â'r Llwybr Gordewdra, oedd argaeledd gwasanaethau lefel tri a phedwar arbenigol, ac roedd yn cynnwys ystyriaeth benodol ar gyfer gwasanaethau i blant.

Mae'r Gweinidog wedi dweud bod swyddogion wedi ysgrifennu at y saith Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn am dystiolaeth yn erbyn y gofynion gwasanaeth gofynnol ar gyfer pob lefel o'r Llwybr. Dangosodd y canlyniadau fod pob un ond un Bwrdd Iechyd wedi bodloni'r gofynion gwasanaeth gofynnol ar lefelau un a dau o'r Llwybr.

### Camau i'w cymryd yn y dyfodol

Mae'r Gweinidog wedi cadarnhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu Manyleb Gwasanaeth a Pholisi Mynediad Clinigol lefel tri i blant, a bod y gwaith yn mynd rhagddo. Unwaith yr oedd yn ei le, dylid ei fonitro, ynghyd â'r gofynion ar lefelau un a dau.

> **Argymhelliad 4.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol fonitro cynnydd a chydymffurfiad â'r gofynion gwasanaeth gofynnol ar gyfer pob lefel o'r Llwybr Gordewdra fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc.

## Polisi Iechyd y Geg Plant yng Nghymru (2012)

Edrychodd yr **ymchwiliad** ar effeithiolrwydd rhaglen 'Cynllun Gwên' Llywodraeth Cymru o ran gwella iechyd y geg ymhlith plant yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Un o'r materion a archwiliwyd y Pwyllgor oedd a oedd y rhaglen yn cael ei chyflwyno yn gyson ar draws yr awdurdodau lleol ym mhob ardal o angen, o ystyried ei bod wedi cael ei threialu yn wreiddiol gan dargedu plant ifanc mewn ardaloedd difreintiedig. Ar adeg yr ymchwiliad, awgrymodd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth gan randdeiliaid ei bod yn rhy gynnar i gadarnhau a oedd y rhaglen **Cynllun Gwên** yn cyflawni canlyniadau iechyd gwell i blant.

### Diweddariad ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi

Mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau mewn iechyd deintyddol mewn plant yw un o'r pedwar mater allweddol a amlygwyd yng Nghynllun Iechyd y Geg Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru 2013/18 wedi'i diweddaru.

Cyhoeddwyd yr 'Arolwg o iechyd y geg plant deuddeg oed' diweddaraf gan Uned Gwybodaeth Geneuol Cymru yn 2014 ac mae'n dweud y bydd data a gesglir yn 2016/17 a 2020/21 yn llywio effaith amcangyfrifedig y Cynllun Gwên ar ddannedd parhaol oedolion.

Mae adroddiad monitro diweddaraf Cynllun Gwên (Rhagfyr 2014) yn dod i'r casgliad bod 'cynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth ddatblygu Cynllun Gwên yn ystod 2013/14'.

### Camau i'w cymryd yn y dyfodol

Mae diweddariad 2014/15 y Cynllun Iechyd y Geg Cenedlaethol Cymru yn cyfeirio at y Cynllun Gwên ac yn dweud bod "cynnydd da yn cael ei wneud", a bod:

"Dwy her wedi cael eu nodi. Yn gyntaf i adeiladu ar y cyflawniadau hyd yma a datblygu proses i nodi i ba raddau y mae'r Cynllun Gwên wedi dylanwadu ar lefelau pydredd mewn plant 5 oed erbyn 2015/16. Yn ail i sicrhau bod Byrddau Iechyd yn archwilio a datblygu mecanweithiau newydd ar gyfer cyrraedd a dylanwadu ar y plant anoddaf eu cyrraedd yn y garfan 0-3 oed".

> **Argymhelliad 5.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol ddwyn y Gweinidog i gyfrif ar fonitro'r data blynyddol gan Uned Gwybodaeth Geneuol Cymru i fesur i ba raddau mae'r Cynllun Gwên wedi dylanwadu ar lefelau pydredd mewn plant 5 oed dros gyfnod o amser. Dylai hefyd fonitro'r graddau y mae pob plentyn yng Nghymru yn gallu cael mynediad i'r rhaglen Cynllun Gwên a gwasanaethau deintyddol pan fydd angen.



**Ymchwiliad i Ganlyniadau Addysgol Plant o Gartrefi Incwm Isel**
Ymweliad y Pwyllgor â chanolfan deuluol ym Monymaen, Abertawe, Chwefror 2014

## Gwaith Athrawon Cyflenwi (2015)

Prif nod **ymchwiliad** y Pwyllgor oedd edrych ar y defnydd o athrawon cyflenwi a'i effaith ar ddisgyblion. Nodwyd llawer o faterion, ond y farn glir a gyflwynwyd oedd y gallai llawer o'r materion hyn gael eu gwella â threfniadau agosach rhwng cyflogwyr athrawon cyflenwi a'r rheiny sydd â chyfrifoldeb am ddarparu addysg mewn ysgolion.

Roedd prif argymhelliad y Pwyllgor felly yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar ystod o opsiynau ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi, gan gynnwys trefniadau clwstwr a weithredir gan awdurdodau lleol neu drwy gorff cenedlaethol.

Yn ystod yr ymchwiliad hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau newydd ar **Reoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol**. Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i ofyn i Estyn i adolygu effeithiolrwydd y Canllawiau mewn adolygiad thematig yn y dyfodol.

### Camau i'w cymryd yn y dyfodol

Mae newid y sail ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi yn gam hanfodol ymlaen, ond mae hyn yn debygol o fod yn nod tymor hwy, gyda'r contract presennol ar gyfer athrawon cyflenwi yn parhau tan Awst 2018.

Yn ystod y ddadl yn y **Cyfarfod Llawn** ar 10 Chwefror, cyhoeddodd y Gweinidog ei fod yn sefydlu tasglu i ystyried opsiynau ar gyfer darparu athrawon cyflenwi yn y dyfodol yng Nghymru, fyddai'n cynnwys cyflogwyr, undebau a rhanddeiliaid allweddol i gyd yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu opsiynau ar gyfer y dyfodol.

> **Argymhelliad 6.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol (a) ddilyn i fyny ar y prif argymhelliad yn agosach at Awst 2018; (b) ystyried canfyddiadau adolygiad Estyn o'r Canllawiau newydd; ac (c) monitro'r cynnydd a wnaed gan dasglu'r Gweinidog.

## Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2015)

Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i sefydlu a yw'r **Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg** (Cynlluniau Strategol) newydd yn cyfrannu at y deilliannau a'r targedau a nodir yn Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg trosfwaol Llywodraeth Cymru. Yn benodol, edrychodd y Pwyllgor ar a yw Cynlluniau Strategol yn cyflawni, neu a oes ganddynt y potensial i gyflawni, y newid sydd ei angen ar lefel awdurdod lleol (er enghraifft cyflwyno darpariaeth i ateb unrhyw alw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg).

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oedd effaith bosibl y Cynlluniau Strategol wedi ei gwireddu a gwnaeth argymhellion allweddol yn ymwneud â'r angen brys am well gwaith partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Heb hyn, ac ymrwymiad ar y cyd i gyrraedd y targedau, mae'n anodd gweld sut y gellir bodloni dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

### Camau i'w cymryd yn y dyfodol

Yn ystod y ddadl yn y **Cyfarfod Llawn** ar 24 Chwefror, dywedodd y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn ystod 2016 yn ystyried pa newidiadau o ran ffocws, pwyslais, ffurf a chynnwys y gellid eu gwneud ar gyfer y tair blynedd rhwng 2017 a 2020. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad o'i strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys rôl ac

effaith Cynlluniau Strategol. Roedd adroddiad ar y gwerthusiad i fod i gael ei gyhoeddi cyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad.

**Argymhelliad 7.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol ystyried canlyniadau'r gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a gofyn am wybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru ar y camau y mae'n bwriadu eu cymryd wrth ymateb, gan gynnwys unrhyw oblygiadau ar gyfer rôl a swyddogaeth Cynlluniau Strategol.

## Consortia Addysg Rhanbarthol (2015)

Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch canfyddiadau allweddol eu hadroddiadau ar y Consortia Addysg Rhanbarthol. Yn dilyn y sesiynau briffio hyn, penderfynodd y Pwyllgor ei fod am wneud gwaith dilynol yn y maes hwn o ystyried rôl ganolog y Consortia yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru i wella safonau ysgolion.

Gwahoddwyd pob Consortiwm Addysg Rhanbarthol i'r pwyllgor i drafod canfyddiadau'r ddau adroddiad cynharach a'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen ag ef o ganlyniad i hynny. Cyn y sesiynau gyda'r consortia rhanbarthol, lansiodd y Pwyllgor alwad am fewnbwn gan randdeiliaid, gan ofyn iddynt awgrymu unrhyw faterion yr oeddent yn dymuno i'r Pwyllgor eu codi'n uniongyrchol gyda'r consortia. Yn dilyn hyn, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau.

**Argymhelliad 8.** Dylai unrhyw bwyllgor olynol barhau â rôl weithredol wrth adolygu pa mor effeithiol yw'r Consortia Addysg Rhanbarthol wrth gefnogi blaenoriaethau addysg Llywodraeth Cymru ac yn benodol y ffordd y maent yn cael eu defnyddio fwyfwy i ddosbarthu cyllid addysg a allai fod wedi cael ei ddarparu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol yn y gorffennol.

## Deilliannau addysgol i blant o gartrefi incwm isel (2015)

Ymgymerodd y Pwyllgor â'r ymchwiliad i adolygu effeithiolrwydd polisïau Llywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael â'r bwlch a welir yn **neilliannau addysgol** plant o gartrefi incwm isel ym mhob cyfnod allweddol. Mae hwn wedi bod yn un o dair blaenoriaeth ddatganedig Llywodraeth Cymru a nododd y Pwyllgor, er bod rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud ar draws y cyfnodau allweddol, ni ddylid tanamcangyfrif maint y newid sydd ei angen. Hefyd, er bod polisïau wedi'u hanelu at wella lefelau cyrhaeddiad yn gyffredinol i'w croesawu, maent yn arwain at sefyllfa lle bydd yr holl gyrhaeddiad yn gwella, ac ni fydd hynny'n llwyddo i gau'r bwlch cyrhaeddiad.

### Diweddariad ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi

Roedd dogfen 2015 'blwyddyn yn ddiweddarach' Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad ar ei strategaeth o 2014 **Ail-ysgrifennu'r Dyfodol**, a'r pedair thema allweddol yr oedd wedi'u nodi i godi uchelgais a chyrhaeddiad mewn ysgolion.

Cyhoeddwyd yr **ystadegau** diweddaraf ar gyflawniad academaidd a'r hawl i gael prydau ysgol am ddim ym mis Ionawr 2016. Ymhlith y pwyntiau allweddol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yw:

- mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwella yn gyson ar gyfer pob dangosydd ym mhob cyfnod allweddol;
- mae'r bwlch mewn perfformiad wedi lleihau yn gyffredinol dros y pedair blynedd diwethaf yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3;

– mae'r duedd yn anghyson yng Nghyfnod Allweddol 4. Syrthiodd y bwlch yn 2015 ond mae wedi amrywio rhwng cyfnodau o gynnydd a chyfnodau o ostyngiad er 2008. Yn 2015, cyflawnodd 31.6% o'r disgyblion oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim lefel 2 gynhwysol yng Nghyfnod Allweddol 4 (TGAU gradd C neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg a mathemateg neu gyfwerth) o'i gymharu â 64.1% o'u cymheiriaid. Targed Llywodraeth Cymru yw bod 37 y cant o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'r lefel 2 gynhwysol erbyn 2017.[2]

Derbyniodd y Gweinidog argymhelliad y Pwyllgor i roi targed mwy heriol yn ei le ar gyfer lleihau'r bwlch rhwng plant 7 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cymheiriaid. Ym mis Ionawr 2016 dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor am darged cenedlaethol newydd.

**Camau i'w cymryd yn y dyfodol**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu pwyslais parhaus y Gweinidog ar bwysigrwydd cau'r bwlch cyrhaeddiad, a'r cyllid sydd wedi'i dargedu ar gyfer mentrau megis y Grant Amddifadedd Disgyblion a Her Ysgolion Cymru. Fodd bynnag, rhaid profi bod y rhain yn cyflawni'r newidiadau sydd eu hangen a chynnig canlyniadau wedi'r lefel sylweddol o fuddsoddiad. Mae rhagolygon y gallai cyfraddau tlodi plant yng Nghymru gynyddu tua thraean erbyn 2020.[3] Bydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod ei pholisïau i gau'r bwlch cyrhaeddiad yn ddigon hyblyg i addasu i newidiadau o'r fath.

**Argymhelliad 9.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol fonitro'n agos a yw'r Grant Amddifadedd Disgyblion a Her Ysgol Cymru yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer disgyblion a gwerth am arian.

## Presenoldeb ac Ymddygiad (2013)

Adolygodd y Pwyllgor effeithiolrwydd polisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo **ymddygiad a phresenoldeb** cadarnhaol yn y ddarpariaeth addysg i blant o oedran ysgol gorfodol.

Y casgliad allweddol oedd bod pryderon dros y cynnydd araf ac anghyson wrth fynd i'r afael â materion presenoldeb ac ymddygiad er gwaetha'r ffaith bod y materion hyn wedi cael eu harchwilio a'u cofnodi gan y Llywodraeth ac awdurdodau lleol dros nifer o flynyddoedd.

Roedd un o'r prif argymhellion yn galw am ddatblygu strategaeth presenoldeb ac ymddygiad cyffredinol ac argymhelliad i werthuso dewisiadau amgen i hysbysiadau cosb benodedig cyn cyflwyno rheoliadau.[4] Gwrthododd Llywodraeth Cymru y ddau hyn.

---

[2] **Llywodraeth Cymru, Adeiladu Cymunedau Gwydn: Bwrw Ymlaen â'r Cynllun Mynd i'r Afael â Gweithredu Tlodi, Gorffennaf 2013**

[3] Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS), Plant a Thlodi oed Gweithio yng Ngogledd Iwerddon dros y Degawd Nesaf: Diweddariad, IFS, **nodyn briffio**, BN154, Tachwedd 2014. Rhagwelodd hyn y byddai cyfran y plant mewn tlodi cymharol cyn costau tai yng Nghymru a Lloegr yn cynyddu o ragolwg o 19.6 y cant yn 2013-14 i 20.6 y cant yn 2020-2.

[4] **Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013**

**Diweddariad ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi**

Dangosodd yr ystadegau diweddaraf ar waharddiadau parhaol a chyfnod penodol (cyhoeddwyd Medi 2015) y canlynol:

- gostyngiad parhaus yn nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol a dim newid mewn gwaharddiadau parhaol;
- bod gan ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu ag anghenion addysgol arbennig gyfraddau uwch o waharddiadau.

Mae Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad wedi nodi bod yna amrywiadau sylweddol ar draws awdurdodau lleol yn y defnydd o Hysbysiadau Cosb Benodedig am wyliau yn ystod y tymor. Cydnabu'r Gweinidog nad oedd awdurdodau lleol yn gweithredu'r polisi yn gywir ac yn gyson, ac ysgrifennodd at bob awdurdod lleol a phob Pennaeth yn amlinellu'r dehongliad cywir o'r polisi.

> **Argymhelliad 10.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol gynnal adolygiad yn y tymor hwy ar effeithiolrwydd y defnydd o Hysbysiadau Cosb Benodedig i fynd i'r afael ag absenoldeb heb ganiatâd.

## Polisi Amddiffyn rhag yr Haul Ysgolion (2012)

Yn dilyn cais gan y Pwyllgor Deisebau, cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ymchwiliad byr i **bolisi amddiffyn rhag yr haul ysgolion**, oedd yn edrych ar argaeledd a'r defnydd o eli haul, a materion amddiffyn rhag yr haul eraill. Y casgliadau allweddol oedd nad oedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer darparu eli haul am ddim mewn ysgolion, gydag ymatebwyr yn gyffredinol yn awgrymu bod ymddygiad diogel yn yr haul, fel gwisgo dillad gwarchodol neu ddefnyddio cysgod pan fydd yr haul ar ei gryfaf, yn bwysicach.

**Diweddariad ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi**

Cadarnhaodd y Gweinidog:

- "diogelwch yn yr haul" yw un o saith elfen fframwaith cenedlaethol Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru, a bod 99 y cant o ysgolion yng Nghymru yn rhan o'r cynllun hwn;
- mae cryfhau y maes gwaith hwnnw wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth, ac roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Caerdydd i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Roedd y Pwyllgor wedi argymell bod canllawiau newydd yn cael eu cyhoeddi i roi cyngor ar arfer gorau ynghylch darparu cysgod o ran adeiladau newydd a gwaith adnewyddu. Dywedodd y Gweinidog ym mis Tachwedd 2015, er na fyddai hyn yn cael ei gyhoeddi fel canllawiau ar wahân, mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn diffinio safon ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif a bydd yr agwedd hon yn cael ei hystyried fel rhan o hyn. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd fod y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn symud ymlaen, a bydd y Llywodraeth yn parhau i wella ac ehangu'r canllawiau sydd ar gael i awdurdodau lleol ac ysgolion.



**Ymchwiliad i Ganlyniadau Addysgol Plant o Gartrefi Incwm Isel**
Ymweliad y Pwyllgor ag Ysgol Gynradd Tregatwg, y Barri, Tachwedd 2013

## Hawliau plant

Yn ganolog i ddull y Pwyllgor drwy gydol y Pedwerydd Cynulliad fu monitro a yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn cyflawni ei hymrwymiad i sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael mynediad at eu holl hawliau fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'r gwaith hwnnw wedi cynnwys y canlynol:

- **Craffu blynyddol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru**:
  gyda ffocws penodol ar faint sy'n cael ei neilltuo ar gyfer ei wario ar blant a pha mor dryloyw yw'r gyllideb yn hynny o beth. Mae'r Pwyllgor wedi talu sylw arbennig i ddyraniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth i deuluoedd, yn benodol rhaglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru ac a oes tystiolaeth o werth am arian.

- **Craffu ar gydymffurfio â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011:**
  Mae'r Pwyllgor wedi talu sylw penodol i roi'r mesur ar waith ac mae wedi cynnal dwy sesiwn graffu gyda'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (yn 2013 a 2015) i weld a oedd digon o gynnydd yn cael ei wneud. Yn benodol, mae'r Pwyllgor wedi bod yn awyddus i sicrhau bod effaith polisi a deddfwriaeth ar blant a phobl ifanc wedi cael ei hasesu'n briodol. Amlygodd y gwaith craffu gan y Pwyllgor nad oedd asesiadau Effaith Hawliau Plant yn cael eu cyhoeddi fel mater o drefn pan ddylai hynny fod yn digwydd. Barn y Pwyllgor yw y dylai asesiadau o'r fath gael eu cyhoeddi fel mater o drefn.

- **Craffu blynyddol ar waith Comisiynydd Plant Cymru:**
  sydd hefyd wedi rhoi cyfle i'r Pwyllgor graffu ar y materion polisi a amlygwyd yn adroddiad blynyddol y Comisiynydd.

- **Craffu ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Annibynnol ar waith Comisiynydd Plant Cymru:**
  Mae diddordeb wedi bod gan y Pwyllgor yn sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen â'r argymhellion a wnaed yn yr **adroddiad** ar yr 'Adolygiad Annibynnol o rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru'. Cymerodd dystiolaeth gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a chan y Comisiynydd ei hun ac wedi hynny gofynnodd am dystiolaeth ysgrifenedig gan y Llywydd. Roedd y Pwyllgor yn siomedig bod y Gweinidog wedi gwrthod un o brif argymhellion yr adolygiad: sef bod penodi a chyllido'r Comisiynydd yn cael ei drosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Croesawodd y Pwyllgor ymrwymiad y Gweinidog i wneud gwaith archwiliadol ar ofynion ac agweddau ymarferol deddfwriaeth i atgyfnerthu a symleiddio'r cefndir cyfreithiol sy'n llywodraethu Comisiynydd Plant Cymru.

  Argymhellodd yr adolygiad strwythur mwy ffurfiol ar gyfer craffu ar y Comisiynydd Plant, gyda chefnogaeth hyfforddiant ac amcangyfrifon cyllideb fanylach i gynorthwyo Aelodau yn y dasg hon. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y rhain yn faterion i'r Pwyllgor Busnes yn y Cynulliad nesaf ac yn gobeithio y bydd yn ymchwilio i hyn ymhellach wrth ystyried y system bwyllgorau ar gyfer y Pumed Cynulliad.

**Argymhelliad 11.** Dylai unrhyw bwyllgor olynol gynnal rôl weithredol wrth adolygu Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, ac yn benodol dylai fonitro a yw Asesiadau Effaith Hawliau Plant yn cael eu cyhoeddi fel mater o drefn.

**Argymhelliad 12.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol ddilyn i fyny ar yr angen am ddeddfwriaeth i atgyfnerthu a symleiddio'r cefndir cyfreithiol sy'n llywodraethu Comisiynydd Plant Cymru.

**Argymhelliad 13.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol geisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd yn adolygu'r penderfyniad i beidio â throsglwyddo cyfrifoldeb am benodi ac ariannu'r Comisiynydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Argymhelliad 14.** Dylai unrhyw Bwyllgor dilynol archwilio ymhellach i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithredu'r CCUHP, gyda ffocws penodol ar gydymffurfio â'r Confensiwn mewn perthynas â'r cyllid y maent yn ei chael gan Lywodraeth Cymru.



# Deddfwriaeth a gyfeiriwyd i'r Pwyllgor

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, cyfeiriwyd 6 Bil yn ffurfiol at y Pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Yn unol â'r Rheol Sefydlog honno, trafododd y Pwyllgor egwyddorion cyffredinol y Biliau hyn, ac adroddodd ei ganfyddiadau i'r Cynulliad (ystyriaeth Cyfnod 1).

Pryd y bydd y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol, gellir cyfeirio'r Bil hwnnw yn ôl i'r pwyllgor cyfrifol i'w ystyried yn fanwl, gan gynnwys diwygiadau i destun y Bil (ystyriaeth Cyfnod 2). Cafodd pump o'r 6 Bil a ystyriwyd yng Nghyfnod 1 eu cyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor yng Nghyfnod 2.

## Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Roedd **Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)** yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder, gwella ysgolion, trefniadaeth ysgolion, Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, cyfarfodydd rhieni blynyddol, cwnsela mewn ysgolion, mentrau brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd a chodi taliadau hyblyg am brydau ysgol.
Cefnogodd y Pwyllgor egwyddorion cyffredinol y Bil, ond gwnaeth nifer o argymhellion am y cynigion ar gyfer safonau a threfniadaeth ysgolion a darpariaethau o gwmpas cwrdd â'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Yng Nghyfnod 2, cyflwynwyd 214 o welliannau, y cafodd 141 ohonynt eu cytuno gan y pwyllgor (yn cynnwys 3 gwelliant anllywodraethol). Roedd newidiadau a wnaed i'r Bil yn cynnwys meysydd yn ymwneud ag:

- Ymyrraeth mewn ysgolion a gynhelir;
- Paneli penderfynu lleol;
- Cynigion trefniadaeth ysgolion: newid categori; pŵer i wneud gorchmynion neu i roi cyfarwyddiadau a darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig;
- Ysgolion sefydledig ac ysgolion arbennig sefydledig;
- Brecwast am ddim mewn ysgolion a chwnsela mewn ysgolion.

Derbyniodd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 4 Mawrth 2013.

### Camau i'w cymryd yn y dyfodol

Gwnaeth y Ddeddf newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae cynigion trefniadaeth ysgolion yn cael eu hystyried, gyda'r rhan fwyaf o benderfyniadau yn cael eu gwneud ar lefel leol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu'r broses ar ôl gweithredu'r Ddeddf. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog wedi datgan bod yn rhaid rhoi digon o amser i'r system gael ei hymgorffori yn gywir ac i gael digon o ddata. Felly, ni fyddai unrhyw adolygiad cyffredinol yn debygol o ddigwydd cyn 2016 mewn perthynas â'r pwerau o fewn y Ddeddf sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion.

Dywedodd y Gweinidog hefyd fod gweithredu'r Ddeddf a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion wedi cael ei fonitro ar sail barhaus ac y bydd swyddogion mewn sefyllfa i amserlennu'r adolygiad yn unol â'r ymrwymiad. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf eisoes wedi denu nifer o achosion o Adolygiadau Barnwrol mewn perthynas â'r cod newydd, ynghyd â beirniadaeth academaidd a chyfreithiol.

**Argymhelliad 15.** Dylai unrhyw bwyllgor olynol wneud gwaith craffu ar ôl y broses ddeddfu ar y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru). Dylai hyn gynnwys (a) ystyried unrhyw adolygiad a gynhelir gan Lywodraeth Cymru ar weithredu'r Ddeddf; a (b) adolygiad o'r broses trefniadaeth ysgolion.

## Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014

Nod **Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)** oedd rhoi rhagor o annibyniaeth i Sefydliadau Addysg Bellach, a gwella'u gallu i wneud penderfyniadau, drwy addasu a chael gwared ar y rheolaethau deddfwriaethol a oedd arnynt. Un o brif ddibenion y Bil oedd gwrthdroi ailddosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) o'r sector addysg bellach yng Nghymru.

Er bod y Pwyllgor yn fodlon ar egwyddorion cyffredinol y Bil, nododd y gwaith craffu ar Gyfnod 1 nifer o feysydd lle gallai'r Bil gael ei wella. Roedd gan y Pwyllgor hefyd amheuon am y cyfiawnhad ar gyfer y ddeddfwriaeth. Ychydig o welliannau a wnaed i'r Bil yng Nghyfnod 2, ond roedd y rhain (yn rhannol) yn mynd i'r afael â rhai o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yng Nghyfnod 1.

Er nad yw hyn yn gyfnod Pwyllgor swyddogol, yng Nghyfnod 3, cafodd y Bil ei ddiwygio i gynnwys darpariaeth oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog, heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf 2016, i adolygu gweithrediad y Ddeddf, gyda'r nod yn benodol o asesu ei effaith ar gyllido addysg; darpariaeth Gymraeg; a darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol. Roedd hyn yn adlewyrchu newidiadau a ystyriwyd yng Nghyfnod 2 ac ymrwymiad a wnaed gan y Gweinidog bryd hynny. Ers i’r Pwyllgor drafod y Bil, mynegwyd pryderon am greu a defnyddio cwmnïau preifat gan golegau AB i gyflwyno gwasanaethau. Dylai hyn gael ei ystyried mewn unrhyw waith craffu ar ôl y broses ddeddfu a wneir ar y Ddeddf.

Derbyniodd y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 27 Ionawr 2014. Yn dilyn cael gwared ar ystod eang o gyfyngiadau a rheolaethau ar y sector o dan ddarpariaethau Deddf 2014, penderfynodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn weithredol o 27 Ionawr 2015, i adfer cyn ddosbarthiad corfforaethau addysg bellach yng Nghymru fel Sefydliadau Di-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd (NPISH).

**Argymhelliad 16.** Y dylai unrhyw Bwyllgor olynol fonitro canlyniadau'r adolygiad o weithrediad y Ddeddf, a dylai wneud gwaith craffu ar ôl y broses ddeddfu ar weithredu ac effaith y Ddeddf.



## Deddf Addysg (Cymru) 2014

Cynigiodd y **Bil Addysg (Cymru)** ddeddfwriaeth mewn nifer o feysydd penodol:

- sefydlu'r Cyngor Gweithlu Addysg, gan ymestyn cofrestru a rheoleiddio athrawon i'r gweithlu addysg ehangach;
- cysoni dyddiadau tymhorau ysgol;
- newid bach i'r dull o benodi Prif Arolygydd EM ac Arolygwyr EM ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru o dan adran 19 Deddf Addysg 2005;
- diwygio sut caiff ysgolion annibynnol eu cofrestru a'u cymeradwyo o ran anghenion addysgol arbennig; ac
- asesu anghenion addysgol a hyfforddiant ôl-16 ac Addysg Bellach arbenigol.

Cytunodd y Pwyllgor ag egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth, ac eithrio'r darpariaethau mewn perthynas ag AAA. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai manteision o ran cynnwys yr holl ddiwygiadau AAA o fewn un darn o ddeddfwriaeth, cyhyd ag y gellid gwneud hynny'n brydlon. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd fod y Gweinidog yn ystyried rhoi mwy o rôl mewn perthynas â Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i'r Cyngor Gweithlu Addysg. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi "Y Fargen Newydd" ar drefniadau DPP ar gyfer y gweithlu addysg.

Er y cytunwyd ar yr egwyddorion cyffredinol, roedd cefnogaeth ar gyfer argymhelliad y Pwyllgor mewn perthynas â'r darpariaethau AAA, ac yn dilyn pleidlais gyfartal roedd angen pleidlais fwrw'r Llywydd er mwyn caniatáu i'r Bil symud ymlaen i Gyfnod 2. Cyflwynwyd cyfanswm o 77 o welliannau yng Nghyfnod 2.

Y mater mwyaf arwyddocaol oedd bod y Pwyllgor wedi cytuno'n unfrydol ar welliannau i dynnu'r darpariaethau AAA o'r Bil. Disgrifiodd y Gweinidog y rhan roedd y Pwyllgor wedi chwarae wrth graffu ar y Bil yng Nghyfnod 1 a chytunodd, ar y cyfan, y byddai'n well cynnwys y darpariaethau Anghenion Addysgol Arbennig hyn fel rhan o Fil Diwygio Anghenion Addysgol Arbennig cydlynol. Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) drafft, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog ym mis Gorffennaf 2015 oedd yr ymateb i'r cam gweithredu hwn. Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r bwriad i ddiwygio'r system AAA drwy ddeddfwriaeth, rydym yn siomedig na ddaeth Bil yn Ddeddf yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

> *'... ar ôl dadansoddiad trylwyr o'r cyfraniadau a'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn ei adroddiad ar ddiwedd Cyfnod 1 y Bil, rwyf wedi penderfynu cefnogi dileu'r darpariaethau anghenion addysgol arbennig, Rhan 3, o'r Bil Addysg (Cymru).*
>
> *Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Cyfnod 2, 23 Ionawr 2014*

Derbyniodd Deddf Addysg (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 12 Mai 2014.

> **Argymhelliad 17.** Y dylai unrhyw Bwyllgor olynol ystyried effaith sefydlu'r Cyngor Gweithlu Addysg a monitro unrhyw rôl y rhoddir iddo gan Lywodraeth Cymru o ran cyflawni'r 'Fargen Newydd' o DPP ar gyfer y gweithlu addysg.

**Argymhelliad 18.** Y dylai unrhyw Bwyllgor olynol archwilio'r rhaglen ddeddfwriaethol a cheisio ystyriaeth gynnar o unrhyw fil a gyflwynir yn dilyn y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) drafft (gweler yr adran ar graffu cyn y broses ddeddfu yn hwyrach yn yr adroddiad hwn).

## Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

Darparodd y **Bil Addysg Uwch (Cymru)** ar gyfer fframwaith rheoleiddio a llywodraethu diwygiedig ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Mae'n diwygio swyddogaethau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), sy'n adlewyrchu'r ffaith bod sefydliadau yn awr yn derbyn y rhan fwyaf o'u hincwm o ffioedd dysgu myfyrwyr yn hytrach na gan Lywodraeth Cymru drwy CCAUC.


Amlygodd y trafodaethau yn ystod Cyfnod 1 bod angen i'r fframwaith cyfredol esblygu er mwyn sicrhau rheoleiddio cadarn a chymesur o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Ar y cyfan, cytunodd y Pwyllgor mai'r ffordd fwyaf priodol i gyflawni hyn oedd trwy ddeddfwriaeth sylfaenol.

Roedd y Pwyllgor fodd bynnag, yn pryderu nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi digon o ystyriaeth i ganlyniadau posibl yr Adolygiad Annibynnol o Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru, sy'n cael ei gynnal gan yr Athro Syr Ian Diamond.

Yng Nghyfnod 2, cyflwynwyd a thrafodwyd 60 o welliannau gan y Pwyllgor. Roedd llawer o'r gwelliannau yn adlewyrchu argymhellion a wnaed yng Nghyfnod 1 gan y Pwyllgor a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a oedd yn pryderu am nifer o'r darpariaethau oedd yn ymwneud â gwneud rheoliadau.

Derbyniodd y Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 12 Mai 2015.

**Argymhelliad 19.** Y dylai unrhyw Bwyllgor olynol ystyried goblygiadau canlyniad Adolygiad Diamond ar gyfer y system newydd o lywodraethu o fewn y sector addysg uwch a sefydlwyd gan y Ddeddf.




**Deddf Cymwysterau Cymru, Breinlythyrau a lofnodwyd gan Ei Mawrhydi y Frenhines**
Awst 2015

## Bil Cymwysterau Cymru 2015

Roedd **Bil Cymwysterau Cymru** yn darparu ar gyfer sefydlu Cymwysterau Cymru fel y corff rheoleiddiol annibynnol sy'n gyfrifol am gydnabod cyrff dyfarnu ac adolygu a chymeradwyo cymwysterau yng Nghymru nad ydynt ar lefel gradd.

Yn bennaf gwnaeth y Pwyllgor, a oedd eisoes wedi cynnal gwaith craffu cyn y broses ddeddfu ar gynigion Llywodraeth Cymru i sefydlu Cymwysterau Cymru, argymhellion ar faterion y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried fel rhan o'i dull cyffredinol o ran y polisi o amgylch y Bil. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn argymell nifer o newidiadau penodol i'r Bil ei hun, gan gynnwys diwygio geiriad y ddarpariaeth yn pennu pa gymwysterau sy'n gymwys ar gyfer arian cyhoeddus. Derbyniwyd hyn gan y Gweinidog yn ystod Cyfnod 2 a diwygiwyd y Bil yn unol â hynny.

Yng Nghyfnod 2, cafodd y Bil ei ddiwygio er mwyn cynnwys rhan newydd (Rhan 5) yn y Bil ynghylch categori newydd o gymwysterau a elwir yn "gymwysterau dynodedig". Cynigiwyd y newid hwn fel modd o hwyluso parhad yng nghyfnodau trosiannol cynnar Cymwysterau Cymru.

> *Cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg … ymarfer ymgynghori byr ar y gwelliannau a dderbyniwyd er mwyn clywed barn rhanddeiliaid cyn craffu ar y Bil yng Nghyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn. Gwnaethom groesawu'r dull hwn a'i gymeradwyo. Gobeithiwn y bydd pwyllgorau eraill mewn sefyllfa i fabwysiadu arfer tebyg…*
>
> *Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 'Deddfu yng Nghymru', Hydref 2015*

Gan fod hwn yn cyflwyno 'cysyniad' newydd i'r Bil, gwnaeth y Pwyllgor y penderfyniad i gyhoeddi galwad pellach am dystiolaeth ar oblygiadau'r Rhan newydd honno. Hwn oedd y tro cyntaf i ymgynghori ychwanegol gael ei lansio gan Bwyllgor yn ystod cyfnod 2.

Derbyniodd Deddf Cymwysterau Cymru Gydsyniad Brenhinol ar 5 Awst 2015.

**Argymhelliad 20.** Y dylai unrhyw Bwyllgor olynol fonitro gwaith Cymwysterau Cymru a cheisio diweddariadau gan y rheoleiddiwr newydd. Dylai hyn gynnwys craffu ar adroddiad blynyddol Cymwysterau Cymru.

## Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

Roedd Bethan Jenkins AC yn llwyddiannus mewn balot deddfwriaethol ar 17 Gorffennaf 2013, a rhoddwyd caniatâd iddi fwrw ymlaen gyda'i Bil ar 16 Hydref 2013. Prif amcan polisi'r **Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)** oedd rhoi'r wybodaeth a'r gallu ariannol angenrheidiol i bobl Cymru er mwyn iddynt allu rheoli eu hamgylchiadau ariannol yn effeithiol.

Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth gref a gafwyd yn awgrymu bod cryn dipyn o waith yn cael ei wneud yn y maes hwn; a bod deddfwriaeth eisoes ar waith a fyddai'n sicrhau y gellir cyflawni'r rhan fwyaf o amcanion polisi'r Bil. Daeth y Pwyllgor felly i'r casgliad er ei fod yn cefnogi amcanion polisi sylfaenol y Bil, nid oedd yn angenrheidiol cael deddfwriaeth i gyflawni'r amcanion polisi hynny.

Argymhellodd y Pwyllgor hefyd fod angen meddwl yn galed ynghylch darpariaethau penodol yn y Bil (pe byddai wedi symud ymlaen i gyfnod 2), er mwyn helpu i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cyflawni'r amcanion polisi yn y ffordd orau.

Cynhaliwyd y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol ar 26 Tachwedd 2014. Ar ôl i Lywodraeth Cymru ymrwymo i nifer o gamau gweithredu i fwrw ymlaen ag amcanion y Bil drwy ddulliau eraill, cafodd y cynnig i gytuno ar yr egwyddorion cyffredinol ei dynnu'n ôl gan yr Aelod sy'n gyfrifol. Felly ni wnaed penderfyniad ar yr egwyddorion cyffredinol ac yn unol â Rheol Sefydlog 26.77, bydd y Bil yn methu ar adeg y diddymiad.

# Craffu ar ôl y broses ddeddfu

## Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

Ym mis Mai 2012, cynhaliodd y Pwyllgor waith craffu ar ôl y broses ddeddfu ar weithredu'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Prif nod y Mesur oedd i roi'r polisi Llwybrau Dysgu 14-19, a oedd wedi bod yn strategaeth allweddol Llywodraeth Cymru ers 2003, ar sail statudol. Hwn oedd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth Gymreig i gael ei archwilio gan Bwyllgor i asesu pa mor llwyddiannus fu ei weithredu.

Roedd cynnig dewis ehangach o gyrsiau yn egwyddor sylfaenol oedd yn sail i'r Mesur. Er ei fod yn dal yn gynnar o ran ei weithredu, canfu'r Pwyllgor fod y Mesur, ar y cyfan, yn cael effaith gadarnhaol ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.

Fodd bynnag, mynegwyd pryderon gan ddisgyblion ynghylch y costau a'r pellter yr oedd yn rhaid iddynt deithio i fynychu'r cyrsiau o'u dewis. Ni allai disgyblion eraill ddod o hyd i'r cwrs yr oeddent am ei wneud yn yr iaith Gymraeg ac nad oedd rhai yn ymwybodol y gallent fod wedi cael mwy o gefnogaeth wrth wneud eu dewisiadau.

Roedd prif argymhellion y Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

- archwilio a oedd y cydbwysedd cywir wedi cael ei daro yn y gofyniad i gynnig 30 o gyrsiau;
- adolygu effaith gweithredu'r Mesur, yn enwedig o ran addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

**Diweddariad ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi**

Rhai datblygiadau allweddol:

- sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen 14-19 Allanol, gan arwain at y nifer lleiaf o ddewisiadau yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cael eu lleihau o 30 i 25;
- ymgynghoriad ar ddarparu cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru, gan gynnwys y rheini a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg;
- sefydlu "gweithiwr arweiniol" ar gyfer y bobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf fel rhan o Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Fframwaith Dilyniant;
- adolygiad o effaith y Mesur ar ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a dwy ffrwd.

**Argymhelliad 21.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol wneud gwaith craffu ar ôl y broses ddeddfu ar y Deddfau a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod y Pedwerydd Cynulliad lle nad yw craffu ar ôl y broses ddeddfu wedi bod yn bosibl hyd yn hyn.

# Craffu cyn y broses ddeddfu

## Bil Cymwysterau Cymru

Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio dechnegol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar y Bil a gynigiwyd i sefydlu Cymwysterau Cymru. Rhoddodd hyn rybudd cynnar o'r hyn yr oedd y Bil yn debygol o'i gynnwys, ac arweiniodd at gwestiynau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys mewn perthynas â'r potensial i sefydlu Cymwysterau Cymru â swyddogaethau dyfarnu.

Cyn cyflwyno'r Bil, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr a phenodol i graffu ar y cynigion oedd yn dod i'r amlwg. Fel rhan o'r broses honno, cytunodd y Pwyllgor i ganolbwyntio ar fodelau mewn mannau eraill, gan gynnal ymweliadau canfod ffeithiau â **Quality and Qualifications Ireland** (QQI) a'r **Scottish Qualifications Authority** (SQA) i archwilio sut oedd eu systemau cymwysterau yn gweithredu.[5]

Nod cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymwysterau Cymru oedd rhoi ar waith un o argymhellion allweddol yr 'Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed'.[6] Roedd hyn yn cynnwys cynigion i sefydlu Cymwysterau Cymru yn gyntaf, ac yn ail, maes o law, i ehangu ei gylch gwaith i gynnwys swyddogaethau dyfarnu. Er y byddai'r ail gyfnod hwn yn cael ei ddeddfu maes o law, y cynnig oedd y byddai'r Bil yn cynnwys darpariaethau oedd yn ymwneud â'r ddau gyfnod.

Prif argymhelliad y Pwyllgor yw y dylid cyfyngu Bil Cymwysterau Cymru er mwyn sefydlu Cymwysterau Cymru fel corff rheoleiddio yn unig. Byddai'n fwy priodol ystyried newidiadau yn y dyfodol i'w gylch gwaith, gan gynnwys ei rôl fel corff dyfarnu, ar ôl canlyniad yr adolygiad sy'n mynd rhagddo o'r cwricwlwm ac asesu ac yn dilyn gwaith pellach ar sut y bydd y broses ddyfarnu yn gweithredu.

Gwnaed yr argymhelliad hwn ochr yn ochr ag argymhellion eraill (mwy manwl) sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu ac annibyniaeth weithredol; ac i reoleiddio a sicrhau ansawdd cymwysterau academaidd. Roedd yn amlwg, fodd bynnag, y byddai'r argymhelliad allweddol yn cael effaith ar nifer o'r argymhellion diweddarach a wnaed. Felly categoreiddiodd y Pwyllgor yr argymhellion yn dri grŵp, gan egluro sut y dylai pob grŵp o welliannau gael eu trin pe byddai'r argymhelliad allweddol yn cael ei dderbyn.

Yn ei ymateb, cadarnhaodd y Gweinidog, er ei fod yn parhau i fod yn argyhoeddedig y dylai Cymwysterau Cymru gael swyddogaethau rheoleiddio a dyfarnu yn y tymor hir, ei fwriad oedd, yn y lle cyntaf, i gyflwyno deddfwriaeth i sefydlu Cymwysterau Cymru fel corff cenedlaethol i rheoleiddio cyrff dyfarnu ac i sicrhau ansawdd cymwysterau yn unig. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y byddai deddfwriaeth sylfaenol yn angenrheidiol yn y dyfodol i roi pwerau dyfarnu i Gymwysterau Cymru.

## Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Cynhaliodd y Pwyllgor waith craffu cyn y broses ddeddfu ar y **Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) drafft**, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau mewn ymateb i argymhelliad y Pwyllgor i eithrio darpariaethau yn ymwneud ag AAA o’r Bil Addysg (Cymru) (a amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn). Roedd dull y Pwyllgor yn cynnwys clywed gan randdeiliaid sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yr effeithir arnynt gan AAA/ADY a chan gynrychiolwyr llywodraeth leol ac iechyd sy'n gysylltiedig â gweithredu unrhyw newidiadau. Daeth

[5] Ymweliad â QQI a SQA 1-2 Mai 2014

[6] **Adolygiad o Gymwysterau i fyfyrwyr 14 - 19 oed: Argymhelliad 5**

mwy na 20 darn o dystiolaeth ysgrifenedig i law. Fel rhan o'r broses casglu tystiolaeth, cynhaliodd y Pwyllgor weithdy 'bwrdd crwn' â rhanddeiliaid allweddol, a drefnwyd mewn partneriaeth â Chynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA).

Ar y cyfan, roedd y Pwyllgor yn croesawu'n fawr y bwriad i ddiwygio'r system, ond yn gweld bod "llawer o waith i'w wneud" i fynd i'r afael â 'llawer o feysydd o ansicrwydd' cyn i Fil gael ei gyflwyno'n ffurfiol i broses ddeddfwriaethol y Cynulliad. Roedd Llywodraeth Cymru wedi bwriadu cyflwyno Bil yn yr haf, ond penderfynodd y Gweinidog i ohirio hyn nes y cynhelir ymgynghoriad pellach.

Roedd y dystiolaeth a gafodd y pwyllgor yn gadarnhaol yn gyffredinol am nodau ac amcanion y Bil drafft. Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon gan bob ymatebydd ynghylch yr agweddau ymarferol ar y diwygiadau arfaethedig. Ymatebodd y Pwyllgor yn ffurfiol i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil drafft gyda'r nod o ddylanwadu ar gynlluniau'r Gweinidog. Yn benodol, anogodd y Pwyllgor Lywodraeth Cymru i gryfhau'r ddeddfwriaeth yn y meysydd canlynol:

- Gwaith amlasiantaeth a chydweithio rhwng llywodraeth leol ac iechyd;
- Y system graddedig o gymorth;
- Datrys anghydfodau a chreu system decach, fwy tryloyw;
- Sefydlu system 0-25 oed;
- Trosglwyddo i'r system newydd.

Bydd cyflwyno Bil newydd yn fater i Lywodraeth nesaf Cymru.

**Argymhelliad 22.** Y dylai unrhyw Bwyllgor olynol fonitro cynnydd Llywodraeth Cymru wrth baratoi Bil a bod unrhyw waith craffu ar Fil o'r fath yn cael ei lywio gan y farn a'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Pwyllgor hwn.



**Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) drafft**
Gweithdy bord gron gyda rhanddeiliaid allweddol, Tachwedd 2015

# Gwersi a ddysgwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad

Roedd newidiadau mewn gweithdrefnau ac arfer yn ystod y Pedwerydd Cynulliad wedi golygu bod yn rhaid i'r Pwyllgor fod yn fwy arloesol yn y ffordd yr oeddem yn mynd at ein gwaith, er mwyn cael y gorau allan o'r amser oedd ar gael. Roedd hefyd yn hanfodol i symud tuag at well cyfathrebu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd, gan wneud y gorau o gyfryngau cymdeithasol, a dod o hyd i ffyrdd priodol i wrando ar blant a phobl ifanc.

Un o'r cyfyngiadau yn ystod y Pedwerydd Cynulliad oedd y cyfyngiad pellach ar yr amser oedd gan y Pwyllgor ar gyfer gwaith craffu ar bolisïau neu graffu cyffredinol o ystyried ei fod hefyd yn awr yn gyfrifol am graffu ar ddeddfwriaeth. Er y gall fod mantais glir o ganlyniad i'r swyddogaeth ddeuol hon, roedd yn hanfodol bod amserlen y Pwyllgor yn gytbwys er mwyn i'r gwaith o graffu ar faterion pwysig barhau ochr yn ochr â thrafod deddfwriaeth. I wneud y gorau o'r amser oedd ar gael, ymgymerodd y Pwyllgor â chyfuniad o ymchwiliadau penodol/byr ochr yn ochr ag ymchwiliadau tymor hwy i'w cynnal mewn dull fesul cam. Mae'n hanfodol i'r Pwyllgor Busnes yn y Cynulliad nesaf ystyried sut oedd cydbwysedd y ddeddfwriaeth yn syrthio ar draws y gwahanol bwyllgorau a sut yr effeithiodd hynny ar eu gallu i gynnal ymchwiliadau a gwaith craffu. Roedd gan y Pwyllgor hwn un o'r llwythi gwaith deddfwriaethol trymaf.

Roedd llawer o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor (a'r ffordd y cafodd ei wneud) yn llwyddiannus iawn, er bod elfennau a oedd yn llai effeithiol. Mae'n hanfodol bod arfer da neu'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu rhwng y pwyllgorau. Mae hefyd yn bwysig nad yw hyn yn cael ei golli yn y cyfnod pontio rhwng Cynulliadau, ac yn hynny o beth, roedd y Pwyllgor yn awyddus i gynnwys yn yr adroddiad hwn fanylion am y gwersi cadarnhaol a negyddol a ddysgwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

> *"Mae'n rhaid i mi ddweud bod y pwyllgor hwn yn gwneud ei waith yn dda iawn, yn fy marn i ac ym marn llawer o bobl eraill. Mae'n dylanwadu ar y broses o lunio polisi.*
>
> *(…) mae'n sicr wedi gwneud ei waith o ran cadw ffocws y Gweinidog penodol hwn a bod yn graff ynghylch pryderon y pwyllgor. Mae'r system bwyllgorau yn y Cynulliad yn llwyddiant ar gyfer y sefydliad cyfan, yn fy marn i, ac yn un nad yw'n cael digon o ganmoliaeth".*
>
> *Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Pwyllgor 27 Ionawr 2014*

Y gwersi allweddol a ddysgwyd yw:

- Pwysigrwydd ymgysylltu uniongyrchol: gyda phlant a phobl ifanc; rhieni a gofalwyr; a rhanddeiliaid ehangach.
- Gwerth craffu cyn y broses ddeddfu.
- Materion y mae'r Pwyllgor wedi parhau i ganolbwyntio arnynt dros amser (er enghraifft CAMHS, Mabwysiadu).
- Y defnydd o ymchwiliadau byr a phenodol: megis y consortia rhanbarthol a Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

– Yr angen i gynllunio ymchwiliadau'n ofalus cyn dechrau, er mwyn canolbwyntio ar y tystion hynny fydd yn cynnig y safbwyntiau, y dystiolaeth a'r fantais fwyaf. Yn aml gall ystyried tystiolaeth ysgrifenedig cyn galw ar dystion llafar gynorthwyo gyda'r ffocws.

## Ymgysylltu uniongyrchol

Wrth ymgymryd â'i holl waith, mae'r Pwyllgor wedi edrych am gyfleoedd i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rheini y tu allan i'r Pwyllgor, ac y tu allan i sefyllfa ffurfiol y Pwyllgor. Mae hon wedi bod yn ffordd effeithiol iawn o gasglu tystiolaeth ar ymchwiliadau polisi a deddfwriaeth arfaethedig, ac mae hefyd wedi galluogi'r Pwyllgor i sefydlu cysylltiad gwell â'r rhai yr effeithir arnynt gan y materion.

Mae wedi bod yn arbennig o bwysig i'r Pwyllgor i ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr. Mae enghreifftiau o achlysuron lle yr ymgymerwyd ag ymgysylltiad uniongyrchol wedi'u rhestru isod, ac ar bob achlysur ychwanegodd hyn wybodaeth bwysig a gwerth sylweddol i'r ymchwiliad sy'n cael ei wneud:

**01.Mabwysiadu**
Penododd y Pwyllgor gynghorydd arbennig i hwyluso ymgysylltiad uniongyrchol gyda phlant a rhieni. Cyfarfu'r Pwyllgor â phlant a rhieni ym Mae Colwyn, Wrecsam, Arberth a Chaerdydd.

**02.Cyrhaeddiad a Thlodi**
Aeth y Pwyllgor ar ymweliadau i Abertawe a Wrecsam lle cyfarfu Aelodau'r Pwyllgor â rhieni. Aeth aelodau'r Pwyllgor hefyd i ymweld ag Ysgol Gynradd Llangatwg i gael trafodaeth anffurfiol am y problemau yr oeddent yn eu hwynebu.

**03.Presenoldeb ac Ymddygiad**
Fel rhan o'r ymgynghoriad, cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o 19 o grwpiau ffocws gyda phlant a phobl ifanc ledled Cymru, i ofyn am eu barn a'r materion oedd yn effeithio arnynt o ran presenoldeb ac ymddygiad mewn ysgolion.

**04.Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc**
Cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfodydd anffurfiol gyda rhieni a gofalwyr i drafod y prif heriau a wynebwyd ganddyn nhw a'u plant o ran cael mynediad i wasanaethau CAMHS. Wedi'i hwyluso gan swyddfa'r Comisiynydd Plant a nifer o Sefydliadau Anllywodraethol, cyfarfu'r Pwyllgor hefyd gyda phobl ifanc yng Nghaerdydd, Caerffili, Dinbych a Phontypwl ac aeth i ymweld hefyd â chyfleuster cleifion mewnol Tŷ Llidiard ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

**05.Gwaith Athrawon Cyflenwi**
Cynhaliodd y Pwyllgor arolygon o blant a rhieni/gofalwyr (a ddenodd bron 1,500 o ymatebion). Cyfarfu'r Pwyllgor hefyd yn anffurfiol gydag athrawon, penaethiaid ac athrawon cyflenwi.

**06.Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol draft**
Cynhaliodd y Pwyllgor weithdy 'bwrdd crwn' â rhanddeiliaid allweddol, a drefnwyd mewn partneriaeth â Chynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA).

**07.Ymweliad â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)**
Cyfarfu'r Pwyllgor â'r sawl oedd yn gyfrifol am y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA), ac adolygiad OECD o system addysg Cymru. Dylanwadodd y ddau yn sylweddol ar bolisïau a dull Llywodraeth Cymru yn ystod y Pedwerydd Cynulliad ac mae'r ymweliad wedi llywio gwaith craffu'r Pwyllgor.

**08. Bil Cymwysterau Cymru**
Aeth y Pwyllgor ar ymweliad i'r Scottish Qualifications Authority a Quality and Qualifications Ireland (QQI), fel cyrff sy'n cyfateb i Gymwysterau Cymru.

**09. Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009**
Ymgynghorodd y Pwyllgor â phobl ifanc ledled Cymru i gael gwybod beth oedd eu barn am y cyfleoedd a gawsant. Crëwyd holiadur penodol ac aeth Tîm Allgymorth y Cynulliad i ymweld â Grwpiau/Ysgolion i hyrwyddo hyn.

## Craffu cyn y broses ddeddfu

Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad, cynhaliodd y Pwyllgor waith craffu cyn y broses ddeddfu ar ddau Fil. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn, fel y mae Lywodraeth Cymru ei hun hefyd yn cydnabod.

Mae craffu cyn y broses ddeddfu yn rhoi cyfleoedd i Bwyllgorau a rhanddeiliaid gyfrannu at ddeddfwriaeth a dylanwadu arni tra bod y Llywodraeth yn dal i lunio ei pholisi a'i dull. Hefyd, trwy nodi a mynd i'r afael â materion yn gynnar, gellir eu dwyn i sylw'r Llywodraeth (a'u datrys gobeithio) cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i mewn i'r broses ddeddfwriaethol ffurfiol. Felly dylai'r Bil sy'n cael ei gyflwyno yng Nghyfnod 1 fod yn fwy datblygedig a dylai arwain at ddeddfu mwy effeithlon ac effeithiol. Roedd cyhoeddi'r Bil Drafft ADY yn arbennig o ddefnyddiol yn y broses hon, gan ei fod wedi darparu ffocws clir i'r Pwyllgor a rhanddeiliaid ar ddull arfaethedig y Llywodraeth.

Ffactor pwysig arall (fel yr oedd yn berthnasol yn y Bil Cymwysterau Cymru) yw bod Aelodau'r Pwyllgor eisoes wedi edrych yn fanwl ar gynigion ar gyfer deddfwriaeth, ac felly roeddent eisoes wedi rhannu 'arbenigedd traws-bleidiol' ar y pwnc pan gafodd y Bil ei gyflwyno yn ffurfiol.

Er y gallai fod yn rhy gynnar i ddweud os bydd y gwaith craffu cyn y broses ddeddfu ar y Bil ADY drafft yn gwneud gwahaniaeth, mae'n gwbl glir bod yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor wedi dylanwadu ar ddull gweithredu Llywodraeth Cymru ar Fil Cymwysterau Cymru.

Yn anochel, bydd adegau pan na fydd pwysau amser yn caniatáu ar gyfer craffu cyn y broses ddeddfu, ond credwn ei bod yn gynyddol bwysig a dylai fod yn nodwedd amlwg o'r Pumed Cynulliad.

## Ymchwiliadau fesul cam

Cynhaliodd y Pwyllgor nifer o ymchwiliadau lle y cafodd y gwaith ei wneud mewn sawl cam. Roedd hyn wedi caniatáu ar gyfer ffocws clir ar elfennau penodol o'r ymchwiliad, ond hefyd wedi galluogi symud cyfeiriad yr ymchwiliad, yn dibynnu ar ganlyniadau o'r cam cynharach. Roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth ystyried y materion mwy cymhleth megis Gwasanaethau CAMHS a Mabwysiadu.

## Ymchwiliadau ciplun

Cynhaliodd y Pwyllgor nifer o ymchwiliadau byr a phenodol, oedd â phwrpas clir iddynt - roedd hyn yn cynnwys yr ymchwiliadau ar Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Chonsortia Rhanbarthol a gwaith craffu cyn y broses ddeddfu ar y Bil ADY. Roedd yn ymddangos bod ffocws yr ymchwiliadau hyn yn fwy effeithiol na'r ymchwiliadau mwy eang eu natur a wnaed ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, megis y rheini oedd yn ymwneud ag amddiffyn rhag yr haul neu iechyd y geg.

### Materion eraill

Yn ychwanegol at y gwersi allweddol a ddysgwyd, gallai unrhyw Bwyllgor olynol ddymuno ystyried y materion eraill a ganlyn a brofwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad:

## Defnyddio cynghorydd annibynnol

Roedd y penderfyniad i benodi Cynghorydd Arbennig i'r Ymchwiliad Mabwysiadu, a hynny yn benodol i hwyluso ymgysylltiad uniongyrchol gyda phlant, rhieni a gofalwyr, yn llwyddiannus iawn. Roedd yr aelodau wedi dangos eu bod yn arbennig o awyddus i glywed am brofiadau'r rheini yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y broses fabwysiadu, ac o ystyried natur sensitif y trafodaethau posibl, penodwyd y cynghorydd arbenigol i helpu i hwyluso'r ymgysylltu hwn. Mae'r Pwyllgor yn deall efallai na fyddai'r defnydd o gynghorwyr arbenigol yn briodol ym mhob ymchwiliad, ond mae'n amlwg y gall penodiadau o'r fath wella'r broses graffu mewn rhai amgylchiadau.

## Prif-ffrydio agenda'r Undeb Ewropeaidd

O ystyried natur yr ymchwiliadau polisi, a maint y ddeddfwriaeth a ystyriwyd gan y Pwyllgor, nid yw wedi bod yn bosibl yn ystod y Pedwerydd Cynulliad i ymgymryd â llawer o waith ar faterion Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd prif ffrydio materion yr UE i mewn i fusnes y Pwyllgor fel y bo'n berthnasol, a gall hyn fod yn rhywbeth y dylai ein Pwyllgor olynol ei ystyried wrth edrych ar ei flaenraglen waith (yn amodol ar ganlyniad refferendwm y DU).

## Craffu ariannol cyffredinol gan y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y dylai craffu ariannol gael ei ymgorffori i mewn i bob agwedd ar ei waith. Mae wedi bod yn anodd weithiau, fodd bynnag, i ymgymryd â gwaith craffu ariannol effeithiol yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, ac mae hyn wedi bod yn arbennig o anodd yn ystod trafodaethau ar Filiau.

Er bod y Pwyllgor wedi ystyried yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a ddarparwyd ar gyfer y Biliau y cyfeiriwyd hwy ato, mae'r wybodaeth ariannol a gynhwyswyd yn aml wedi bod yn anodd ei deall yn erbyn darpariaethau penodol y Bil. Dylai ein pwyllgor olynol ystyried a oes angen newid yr arfer yng Nghyfnod 1 i sicrhau y gall y gwaith craffu ariannol mwyaf cadarn gael ei gynnal ar Filiau.

Dylid hefyd ystyried sut y gellid ymgymryd â chraffu ariannol mwy cadarn yn ystod y flwyddyn, a'i ymgorffori i mewn i waith y Pwyllgor. Dylai hyn gael ei ystyried ochr yn ochr â phryderon y Pwyllgor ar broses y gyllideb a chraffu ariannol ar ddeddfwriaeth a nodwyd yn ei **ymateb i ymgynghoriad etifeddiaeth y Pwyllgor Cyllid**.




**Ymchwiliad i Ganlyniadau Addysgol Plant o Gartrefi Incwm Isel**
Ymweliad y Pwyllgor ag Ysgol Gynradd Tregatwg, y Barri, Tachwedd 2013

# Edrych tuag at y Pumed Cynulliad

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod y materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau allweddol y Cynulliad yn y pumed Cynulliad. Yn dilyn yr etholiad ar 5 Mai, bydd yna lawer o heriau y bydd ein Pwyllgor olynol yn dymuno mynd i'r afael â hwy. Wrth geisio helpu i gynnig ffocws ar gyfer unrhyw waith yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor wedi cynnwys awgrymiadau o fewn y tri maes canlynol:

**01.** Barn Plant a Phobl Ifanc

**02.** Argymhellion penodol sy'n codi o waith y Pedwerydd Cynulliad

**03.** Meysydd o bwysigrwydd yn y dyfodol

## Barn plant a phobl ifanc

Wrth edrych ymlaen at y Cynulliad newydd, roedd y Pwyllgor eisiau gwybod pa faterion oedd yn bwysig i blant a phobl ifanc. Cynhyrchodd y Pwyllgor 'gardiau cwestiwn' yn gofyn:

– Beth yw'r mater(ion) pwysicaf sy'n effeithio arnoch chi heddiw?

– Beth fyddech chi'n hoffi ei newid?

Derbyniodd y Pwyllgor 1,380 o ymatebion, ar ystod o faterion a chan grŵp oedran eang. Siaradodd y Pwyllgor hefyd â phobl ifanc yn uniongyrchol yn ystod Digwyddiad Ieuenctid y Cynulliad ar 15 Gorffennaf 2015. Mae **adroddiad manwl** yn tynnu sylw at y canfyddiadau o'r arolwg hwn, gyda hwnnw wedi'i gyhoeddi ar wahân. Mae'r prif feysydd sy'n peri pryder wedi'u hamlygu isod:

– Addysg

– Trafnidiaeth

– Llywodraeth leol

– Iechyd

– Ffioedd Myfyrwyr

– Y Gymraeg

– Hamdden a Chwaraeon

– Tai

– Cymuned

– Cyflogaeth a Sgiliau

– Gwleidyddiaeth

– Yr amgylchedd

– Hamdden

– Cyflogau

– Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

– Rhyngrwyd

– Diogelwch

– Ffermio

## BARN PLANT A PHOBL IFANC

GOFYNNWYD AM FARN A CHYNHALIWYD AROLWG AR-LEIN YNGHYLCH ATHRAWON CYFLENWI

**1,486** WEDI YMATEB

**929** YMATEB GAN BOBL IFANC

GOFYNNWYD BETH OEDD YN BWYSIG I BLANT A PHOBL IFANC

**1,380** O BOBL IFANC WEDI YMATEB

Y TRI PRIF FAES O BRYDER OEDD

TRAFNIDIAETH, ADDYSG, LLYWODRAETH LEOL

## YMGYSYLLTU

DIGWYDDIADAU BWRDD CRWN

AETHOM I YSGOLION A CHYMUNEDAU

GRWPIAU FFOCWS

## Argymhellion o waith y Pedwerydd Cynulliad.

**Argymhelliad 1.** Fel blaenoriaeth ar ddechrau'r pumed Cynulliad, dylai unrhyw bwyllgor olynol sicrhau ei fod yn monitro a yw'r newid sylweddol y mae ei angen yn CAMHS yn cael ei gyflawni. Dylid rhoi sylw arbennig i:

–amseroedd aros;

–a yw'r "gwasanaethau niwroddatblygiadol dynodedig" newydd wedi cael eu datblygu ar draws Cymru;

–a yw plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad at y therapïau seicolegol priodol mewn modd amserol; a

–gallu'r gweithlu a sgiliau ac effeithiolrwydd y swyddi arbenigol newydd.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus iawn am y diffyg mewn staffio ac nad yw safonau ar gyfer staff newyddenedigol arbenigol yn cael eu cwrdd. O ystyried y pryderon parhaus ynghylch staffio a chynaliadwyedd gwasanaethau, dylai unrhyw Bwyllgor olynol fonitro cynnydd yn y maes hwn.

**Argymhelliad 3.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol fonitro bod cynnydd yn cael ei wneud i leihau amrywiadau rhanbarthol o ran darparu gwasanaethau mabwysiadu ac, yn hollbwysig, bod plant a'u teuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt ar ôl mabwysiadu. Mae hefyd yn hanfodol i fonitro a yw pob plentyn a fabwysiadwyd yn cael mynediad i waith stori bywyd o safon.

**Argymhelliad 4.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol fonitro cynnydd a chydymffurfiad â'r gofynion gwasanaeth gofynnol ar gyfer pob lefel o'r Llwybr Gordewdra fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc.

**Argymhelliad 5.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol ddwyn y Gweinidog i gyfrif ar fonitro'r data blynyddol gan Uned Gwybodaeth Geneuol Cymru i fesur i ba raddau mae'r Cynllun Gwên wedi dylanwadu ar lefelau pydredd mewn plant 5 oed dros gyfnod o amser. Dylai hefyd fonitro'r graddau y mae pob plentyn yng Nghymru yn gallu cael mynediad i'r rhaglen Cynllun Gwên a gwasanaethau deintyddol pan fydd angen.

**Argymhelliad 6.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol (a) ddilyn i fyny ar y prif argymhelliad yn agosach at Awst 2018; (b) ystyried canfyddiadau adolygiad Estyn o'r Canllawiau newydd; ac (c) monitro'r cynnydd a wnaed gan dasglu'r Gweinidog.

**Argymhelliad 7.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol ystyried canlyniadau'r gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a gofyn am wybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru ar y camau y mae'n bwriadu eu cymryd wrth ymateb, gan gynnwys unrhyw oblygiadau ar gyfer rôl a swyddogaeth Cynlluniau Strategol.

**Argymhelliad 8.** Dylai unrhyw bwyllgor olynol barhau â rôl weithredol wrth adolygu pa mor effeithiol yw'r Consortia Addysg Rhanbarthol wrth gefnogi blaenoriaethau addysg Llywodraeth Cymru ac yn benodol y ffordd y maent yn cael eu defnyddio fwyfwy i ddosbarthu cyllid addysg a allai fod wedi cael ei ddarparu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol yn y gorffennol.

**Argymhelliad 9.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol fonitro'n agos a yw'r Grant Amddifadedd Disgyblion a Her Ysgol Cymru yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer disgyblion a gwerth am arian.

**Argymhelliad 10.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol gynnal adolygiad yn y tymor hwy ar effeithiolrwydd y defnydd o Hysbysiadau Cosb Benodedig i fynd i'r afael ag absenoldeb heb ganiatâd.

**Argymhelliad 11.** Dylai unrhyw bwyllgor olynol gynnal rôl weithredol wrth adolygu Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, ac yn benodol dylai fonitro a yw Asesiadau Effaith Hawliau Plant yn cael eu cyhoeddi fel mater o drefn.

**Argymhelliad 12.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol ddilyn i fyny ar yr angen am ddeddfwriaeth i atgyfnerthu a symleiddio'r cefndir cyfreithiol sy'n llywodraethu Comisiynydd Plant Cymru.

**Argymhelliad 13.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol geisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd yn adolygu'r penderfyniad i beidio â throsglwyddo cyfrifoldeb am benodi ac ariannu'r Comisiynydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Argymhelliad 14.** Dylai unrhyw Bwyllgor dilynol archwilio ymhellach i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithredu'r CCUHP, gyda ffocws penodol ar gydymffurfio â'r Confensiwn mewn perthynas â'r cyllid y maent yn ei chael gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 15.** Dylai unrhyw bwyllgor olynol wneud gwaith craffu ar ôl y broses ddeddfu ar y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru). Dylai hyn gynnwys (a) ystyried unrhyw adolygiad a gynhelir gan Lywodraeth Cymru ar weithredu'r Ddeddf; a (b) adolygiad o'r broses trefniadaeth ysgolion.

**Argymhelliad 16.** Y dylai unrhyw Bwyllgor olynol fonitro canlyniadau'r adolygiad o weithrediad y Ddeddf, a dylai wneud gwaith craffu ar ôl y broses ddeddfu ar weithredu ac effaith y Ddeddf.

**Argymhelliad 17.** Y dylai unrhyw Bwyllgor olynol ystyried effaith sefydlu'r Cyngor Gweithlu Addysg a monitro unrhyw rôl y rhoddir iddo gan Lywodraeth Cymru o ran cyflawni'r 'Fargen Newydd' o DPP ar gyfer y gweithlu addysg.

**Argymhelliad 18.** Y dylai unrhyw Bwyllgor olynol archwilio'r rhaglen ddeddfwriaethol a cheisio ystyriaeth gynnar o unrhyw fil a gyflwynir yn dilyn y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) drafft.

**Argymhelliad 19.** Y dylai unrhyw Bwyllgor olynol ystyried goblygiadau canlyniad Adolygiad Diamond ar gyfer y system newydd o lywodraethu o fewn y sector addysg uwch a sefydlwyd gan y Ddeddf.

**Argymhelliad 20.** Y dylai unrhyw Bwyllgor olynol fonitro gwaith Cymwysterau Cymru a cheisio diweddariadau gan y rheoleiddiwr newydd. Dylai hyn gynnwys craffu ar adroddiad blynyddol Cymwysterau Cymru.

**Argymhelliad 21.** Dylai unrhyw Bwyllgor olynol wneud gwaith craffu ar ôl y broses ddeddfu ar y Deddfau a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod y Pedwerydd Cynulliad lle nad yw craffu ar ôl y broses ddeddfu wedi bod yn bosibl hyd yn hyn.

**Argymhelliad 22.** Y dylai unrhyw Bwyllgor olynol fonitro cynnydd Llywodraeth Cymru wrth baratoi Bil a bod unrhyw waith craffu ar Fil o'r fath yn cael ei lywio gan y farn a'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Pwyllgor hwn.

## Meysydd o bwysigrwydd yn y dyfodol

Yn ogystal ag unrhyw feysydd/argymhellion penodol a amlinellwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y canlynol yn faterion allweddol i'w hystyried gan unrhyw Bwyllgor olynol:

- Gweithredu Adolygiad Donaldson o'r Cwricwlwm a'r Adolygiad o Gymwysterau.
- Diwygio hyfforddiant cychwynnol athrawon drwy weithredu adolygiad yr Athro John Furlong a threfniadau datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y gweithlu addysg.
- Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Annibynnol ar Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr o dan arweinyddiaeth yr Athro Syr Ian Diamond.
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc
- Gwasanaethau mabwysiadu
- Gofal newyddenedigol
- Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol.